

# Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth Community Council

## Cyfarfod Misol / Monthly Meeting

Nos Lun 20ed Mai, 2024 / Monday, 20<sup>th</sup> May, 2024

Festri Tabernacle Festry, Pencader 8.00 yh / pm

**Presennol / Present:** M. Griffiths, G. Jones, A. Davies, H. Lewis, J. Jones, A. James, R. Thomas, V. Davies, D. Griffiths, W. Cole; Anita Evans (Clerc/Clerk); Cynghorydd Sir/County Councillor L. Evans. PCSO Anwen Davies.

Ymddiheuriadau / Apologies: D. Davies, S. Mason.

<p><b>1. Croeso:</b> Cadeiriwyd y cyfarfod gan M. Griffiths. Croesawodd bawb a nodwyd ymddiheuriadau. Croeso arbennig i Wayne Cole fel aelod newydd. Cyn cychwyn y cyfarfod, cyfeiriwyd at gyn-aelod Mr. Aneurin Davies, Gwyddgrug, a fu farw'n ddiweddar. Diolch am ei wasanaeth i'r Cyngor ar hyd y blynyddoedd. Ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu.</p>	<p><b>1. Welcome:</b> Meeting chaired by M. Griffiths, who welcomed everyone; apologies and absences noted. A special welcome was extended to Mr. W. Cole, a new member. It was noted that a past member, Mr. Aneurin Davies, has sadly passed away. We convey our sincere condolences to the family and acknowledge his many years of service to the Council.</p>
<p><b>2. Datgan diddordeb:</b> neb.</p>	<p><b>2. Declaration of interest:</b> none.</p>
<p><b>3. Adroddiad yr Heddlu</b> – roedd SCCH Anwen Davies (swyddog cefnogi cymunedol yr heddlu) yn bresennol a diolchwyd iddi am anfon y data misol i'r Cyngor. Nodwyd nifer o ddigwyddiadau troseddol yn ystod yr wythnosau olaf; roedd Cyng. A. Davies wedi adrodd i'r Heddlu fod car wedi ei adael yn lleol am 10 niwrnod ond wedi ei symud erbyn hyn. Dywedodd y PCSO fod 3 gwys cyffuriau wedi eu cario allan yn llwyddiannus. Cyfeiriodd at bosteri "Protocol Herbert," sy'n tynnu sylw at bobl sydd ar goll.</p>	<p><b>3. Report from Police</b> - PCSO Anwen Davies was present and was thanked for the monthly data emailed to the Council. Cllr. A. Davies had reported to the police of the abandoned car left in Pencader for 10 days but had by now been removed. PCSO reported that 3 successful drug warrants had been served in the Parish. She also drew attention to the poster "Herbert Protocol," which draws attention to people who are missing. She was thanked for attending the meeting.</p>
<p><b>4. Cofnodion Mis Ebrill</b> - derbyniwyd fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan A. Davies, eiliwyd gan A. James.</p>	<p><b>4. Minutes of April Meeting</b> – accepted as correct record. Proposed by A. Davies seconded by A. James.</p>
<p><b>5. Materion y Clerc:</b> (i) <u>Cyngor Sir Gâr</u> – priffyrdd—wedi anfon rhestr o broblemau at yr Adran Briffyrdd - dim ymateb. Hefyd, nid ydy C. Evans wedi ymateb i lythyr anfonwyd gan y Clerc ers mis ynghlyn â thoiledau Alltwalis. Bydd y Cynghorydd Sir L. Evans yn ymholi. Clerc yn dweud fod cyflwr toiled Alltwalis yn wael iawn. (ii) <u>Cornel Chwarae:</u> Swydd Gofalwr – trafodir yng nghyfarfod ym Mis Mehefin. Mae H. Jones yn gofalu am y safle am y tro. Bydd angen paratoi Swydd Ddisgrifiad newydd. O hyn ymlaen y Cyngor Sir fydd yn gwneud yr arolwg blynyddol o'r safle. (iii) <u>Mynwent y Plwyf, Pencader</u> – gwaith ar y toiled a'r sied - daeth tri pris i law; agorwyd yr amlenni yn y cyfarfod ac yn dilyn trafodaeth cynigiodd A. Davies dderbyn EDAF o Ffostrasol, eiliodd R. Thomas, a</p>	<p><b>5. Clerk Matters:</b> (i) <u>Carmarthenshire County Council</u> - no responses from Highways Department. Also, no response from C. Evans, following a letter sent by the Clerk a month ago regarding problems at Alltwalis Conveniences. County Councillor L. Evans will follow up. Clerk states that the condition of Alltwalis toilet at present is very poor. (ii) <u>Play Area:</u> Post of Caretaker - will be discussed at our June meeting. H. Jones is looking after the site at present. A new Job description will need to be prepared. From now on, it is the County Council which will undertake annual inspections of the site. (iii) <u>Parish Cemetery, Pencader</u> - renovations to the toilet and shed - three quotes received and envelopes opened in the meeting. A. Davies proposed that EDAF, Ffostrasol be accepted, R. Thomas seconded, and all</p>

<p>chytunodd pawb. Bydd y Clerc yn cysylltu i wirio amserau dechrau a gorffen.</p> <p>Roedd y Clerc hefyd wedi cysylltu â'r adeiladwyr canlynol i ofyn am brisiau: B. Evans, S. S. Goddard, W. D. Hayday, E. Davies, H. Howells, A. Davies, W. Evans, D. Evans, J. Jones.</p> <p>(iv) <u>Cafnau Blodau</u> – mae Farmyard Nurseries wedi cytuno i blannu'r cafnau ac wedi cynnig dod allan i gwrdd â'r aelod lleol os nad yw unrhyw gafn wedi bod yn llwyddiannus llynedd.</p> <p>(v) <u>Yswiriant</u> – mae'n amser adnewyddu Yswiriant y Cyngor. Cafwyd prisiau oddi wrth Zurich, Gallagher a Clear Councils. Cynigiodd R. Thomas dderbyn pris Zurich ynghyd â chytundeb am 3-mllynedd pellach. Eiliwyd gan H. Lewis a chytunwyd gan bawb.</p> <p>(vi) <u>Cyfarfodydd Hybrid</u> - mae cynllun ar waith i brynu offer er mwyn galluogi'r Cyngor i ddarparu cyfarfodydd hybrid. Mae D. Davies wedi gweld system "OWL" ar waith ac yn hapus gyda'r system hwnnw. Mae H. Lewis hefyd wedi cysylltu â Chlerc Cyngor Tref Caerfyrddin i ofyn am ragor o fanylion ynglyn â'r system hwn. Cytunwyd bod rhaid bwrw ymlaen a phrynu'r system cyn gynted ag y bo modd. H. Lewis i weithredu ar hyn.</p> <p>(vii) Glanhau <u>Cysgodfeydd Bysiau</u> – mae cwmni o'r enw Core Clean Services wedi anfon llythyr yn esbonio ei gwasanaeth i lanhau cysgodfeydd, gatiâu gwyn ac ati. Bydd y Clerc yn cysylltu a gofyn am ddarpariaeth yswiriant.</p>	<p>agreed. Clerk will contact to confirm timetable for commencement and completion of the work.</p> <p>The Clerk had also requested quotations from the following builders: B. Evans, S.S. Goddard, W.D. Hayday, E. Davies, H. Howells, A. Davies, W. Evans, D. Evans, J. Jones.</p> <p>(iv) <u>Flower troughs</u> – Farmyard Nurseries have agreed to plant the troughs and have offered to meet with local Councillor to discuss if any particular trough was not a success last year.</p> <p>(v) <u>Insurance</u> - the Council's Insurance is due for renewal. Quotations have been received from Zurich, Gallagher and Clear Councils. R. Thomas proposed the quote offered by Zurich as well as another 3-year agreement be accepted. H. Lewis seconded and all agreed.</p> <p>(vi) <u>Hybrid Meetings</u> - arrangements are in hand to purchase the necessary equipment to enable the Council to facilitate hybrid meetings. D. Davies has seen the "OWL" system at work and is satisfied with the set up. H. Lewis had also contacted the Clerk of Carmarthen Town Council for further information regarding this system. It was agreed the system should be purchased at the earliest opportunity. H. Lewis to pursue.</p> <p>(vii) <u>Bus Stop Cleaning</u> - Core Clean Services have sent a letter outlining their services in respect of cleaning bus shelters, white gates, etc. Clerk will contact to ask about insurance.</p>
<p><b>6. Ariannol:</b></p> <p>Derbyniwyd y fantolen – cynigiwyd gan A. Davies, eiliwyd gan R. Thomas Diolch i H. Lewis am baratoi'r fantolen.</p> <p><u>Biliau i'w Talu</u> – cynigiwyd gan V. Davies, eiliwyd gan D. Griffiths: cyflogau (Ebrill 2024) £1,788.81; Astitium (website hosting) £119.99; domain £9.59; Un Llais Cymru (hyfforddiant) £60.00; costau'r Clerc / postio, ffôn (21/03 hyd at 29/04) £15.10; Dyfed Alarms (cytundeb gwasanaeth) £78.00.</p> <p><u>Precept</u> wedi ei dderbyn oddi wrth Cyngor Sir Caerfyrddin - £17,666.66</p> <p>Clerc wedi hawlio TAW (2023-2024) - £3,370.15.</p>	<p><b>6. Financial:</b></p> <p>The monthly balance sheet provided by H. Lewis was accepted – A. Davies proposed, R. Thomas seconded, and H. Lewis was thanked.</p> <p><u>Bills to be Paid</u> - proposed by V. Davies, seconded by D. Griffiths: wages (April 2024): £1,788.81; Astitium (website hosting) £119.99; domain £9.59); One Voice Wales training £60.00; Clerc's costs – postage, telephone (21/03 to 29/04) £15.10; Dyfed Alarms (service agreement) £78.00.</p> <p><u>Precept</u> from Carmarthenshire County Council received - £17,666.66.</p> <p>Clerc has claimed VAT (2023-2024) - £3,370.15.</p>
<p><b>7. Cynllunio:</b></p> <p>Ceisiadau: Waunlwyd, Hebron; Y Guddfan, SA39 9AS; Ydfran Hafod, Pencader.</p>	<p><b>7. Planning:</b></p> <p>Applications: Waunlwyd, Hebron; Y Guddfan, SA39 9AS; Ydfran Hafod, Pencader.</p>

<p>Ni wnaeth y Cynghorydd Sir L. Evans gymeryd rhan mewn trafodaethau cynllunio. Roedd yr holl wybodaeth wedi ei e-bostio i Gynhorwyr yn flaenorol. Dim gwrthwynebiad.</p>	<p>County Councillor L. Evans did not participate in discussions re: planning. All information previously e-mailed to Councillors. No objections.</p>
<p><b>8. Audit 2022-23:</b> Derbyniwyd Adroddiad Audit 2022-23 ar 18.04.2024. Trefnwyd i'r Is-Bwyllgor Cyllid i gyfarfod ar 5ed Mehefin i drafod yr argymhellion a gweithredu arnynt ar gyfer Audit 2023-24.</p>	<p><b>8. Audit 2022-23:</b> The Auditor's Report for 2022-23 was received on 18.04.2024. The Finance Sub-Committee will meet on 5<sup>th</sup> June to discuss the recommendations and respond to any actions required in readiness for submission of Audit documents for 2023-24.</p>
<p><b>9. 2023-2024 Audit:</b> Derbyniwyd y ddogfennaeth angenrheidiol oddi wrth Audit Cymru ar 18.03.2024. Adroddodd y Clerc fod y cyfrifon wedi eu hanfon at y cyfrifydd, sef E. Jones Llanybydder, ar gyfer Archwiliad Mewnol. Disgwylir iddynt gael eu hafnon, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall y gofynnir amdano, at Audit Cymru erbyn 05.07.2024 fan hwyraf.</p>	<p><b>9. 2023-2024 Audit:</b> The required documentation was received from Audit Wales on 18.03.2024. The Clerk reported that accounts had been delivered to the accountant, E. Jones, Llanybyther, for Internal Audit. We await their return, following which they will be submitted to Audit Wales, along with any other information requested by 05.07.2024 at the latest.</p>
<p><b>10. Dogfennaeth:</b> i) Contract Cyflogaeth Newydd ii) Lwfansau Aelodau: Amserlen camau blynyddol (Un Llais Cymru) iii) Amserlen Camau Cyn Etholiad (Un Llais Cymru) iv) Adroddiad Blynyddol - Amserlen Camau (Un Llais Cymru) Nodwyd y disgwylir i'r dogfennau uchod (ii-iv) fod o gymorth i hwyluso gwaith y Clerc. Cynigiodd H. Lewis ac eiliodd G. Jones, a chytunwyd gan bawb i dderbyn y dogfennau uchod.</p>	<p><b>10. Documentation:</b> i) New Contract of Employment. ii) Members' Allowances: Annual Timetable of Actions (One Voice Wales) iii) Pre-Election Period Timetable of Actions (One Voice Wales) iv) Annual Report: Timetable of Actions (One Voice Wales) It was noted that the above documents (ii – iv) should prove useful in supporting the work of the Clerk. It was proposed by H. Lewis, seconded by G. Jones and agreed by all to accept the above documents.</p>
<p><b>11. Gohebiaeth:</b> mae'r canlynol wedi eu e-bostio i'r Cynghorwyr:</p> <p>i) <u>Un Llais Cymru</u>: digwyddiadau gweminarau; bwletin newyddion; lansiad adnoddau Bioamrywiaeth ar-lein; Partneriaeth Natur Ceredigion; Addysg Gymraeg i bawb; datblygu economi y Gymru wledig.</p> <p>ii) <u>Cyngor Sir Gâr</u>: Canlyniad Ymgynghoriad Polisi Plant yn Codí'n Bedair Oed; cais am ddata ynglyn ag hyfforddiant Côt Ymddygiad; cynnig hyfforddiant Côt Ymddygiad 28.06.24 drwy Zoom am 2yp; cau ffyrdd.</p> <p>iii) <u>Canolfan Ceufad Llandysul</u> - llythyr o ddiolch am gyfraniad ariannol ar gyfer Gŵyl yr Afon 2023.</p> <p>iv) <u>Y Pwerdy</u> - newid swyddogion; ymddiheurio am fod yn hir yn ymateb i'n cwestiwn a fyddai'r person sy'n</p>	<p><b>11. Correspondence:</b> the following have been e-mailed to Councillors:</p> <p>i) <u>One Voice Wales</u>: webinar events; news bulletins; Biodiversity resources launch online; Ceredigion Nature Partnership; Welsh for all; development of the rural economy.</p> <p>ii) <u>Carmarthenshire County Council</u>: Outcome of Primary Rising 4's Policy Consultation; request for Code of Conduct training data; offer of Code of Conduct training on Zoom 28.06.24 at 2pm; road closures.</p> <p>iii) <u>Llandysul Paddlers</u> — letter of thanks for financial donation towards the River Festival 2023.</p> <p>iv) <u>Powerhouse</u> - change of officials; apologising for late answer to our question asking if any</p>

<p>cynrychioli'r Cyngor yma ar ei bwrdd yn dod yn ymddiriedolwr - yr ateb yw ydy.</p>	<p>representative from this Council would automatically become a trustee; the answer is yes.</p>
<p>12) <b>Unrhyw Fater Arall</b> (gwybodaeth oddi wrth Gynghorwyr yn unig):</p> <p>Cynghorydd Sir L. Evans: Gwasanaeth Bws Bach y Wlad wedi dechrau; cyflymder 20 milltir yr awr dan ymgynghoriad.</p> <p>A. Davies - twll mawr ar droad Gwyddgrug / Pencader; twll ochr draw i Fferm Glanawmor Uchaf heb gael sylw; bollard Arwerydd heb ei ail osod o hyd; llinellau melyn Pontweli heibio Wilke's Head heb gael eu gwneud; ceir ar y ffordd fawr ym Mhontweli yn cael eu parcio gan Garej Highway; lle bwyd ochr draw'r cae chwarae ym Mhencader - gofid am geir a thraectorau yn enwedig yn parcio ar y palmant a'r ffordd fawr pan fod gyrrwyr yn hôl eu bwyd.</p> <p>G. Jones - arwydd "dim lorïau" ar ben hewl Glantweli Fach wedi cwmpo a heb ei atgyweirio; tyllau ar hewl Pencader yn enwedig gerllaw y Siop Sglodion a Bro'r Hen Wŵr.</p> <p>V. Davies - gofyn ydy hi'n bosib archebu bin sbwriel fwy o faint i'w osod ochr draw Bro'r Hen Wr, Pencader.</p> <p>W. Cole - tyllau ar y ffordd yn New Inn, tu allan i Heddfryn ac ochr draw i Gwastod Abbot.</p> <p>R. Thomas - tyllau bob ochr i fynedfa Windy Corner heb gael sylw o hyd -</p> <p>H. Lewis - posibilrwydd o ymgeisio am grant i greu ardal bioamrywiaeth ar ran o'r cae ar safle Mynwent y Pencader; coed ar y ffordd i Landysul angen sylw; hefyd y coed ar y graig ar rhiw Alltwalis; angen gwneud rhestr o'r cafnau blodau yn y Plwyf er mwyn gwneud asesiad risg.</p> <p>M. Griffiths - annog Gynghorwyr i ddilyn hyfforddiant ar Zoom; amlinellwyd yr hyfforddiant sydd ar gael a'r disgwyl i bob Cynghorydd fynychu rhai cyrsiau penodol, e.e. Côt Ymddygiad.</p> <p>Bioamrywiaeth – nodwyd bod cynllun yn cael ei baratoi a gofyn am awgrymiadau pellach i'w cynnwys yn y cynllun.</p>	<p>12) <b>Any Other Business</b> (information from Councillors only)</p> <p>County Councillor L. Evans –new local bus service (Bws Bach y Wlad) has started; 20mph speed limit under consultation.</p> <p>A. Davies - manhole on junction of Gwyddgrug / Pencader requires attention; manhole opposite Glanawmor Farm not attended to; bollard at Arwerydd in Pontweli still not replaced; no sign of yellow lines in Pontweli by Wilkes' Head; cars parked on main road from Highway Garage are still a problem; snack food outlet in Pencader — drivers are parking vehicles and especially tractors on the pavement and road when getting their food.</p> <p>G. Jones - potholes in the area especially by Pencader Chip Shop and Bro'r Hen Wŵr; the road sign for "no lorries" on junction with road to Glantweli Fach still not fixed.</p> <p>V. Davies - asks for the possibility of replacing the rubbish bin opposite Bro'r Hen Wr with a larger bin.</p> <p>W. Cole - manholes on the road in New Inn, outside Heddfryn and opposite Gwastod Abbot.</p> <p>R. Thomas manholes at both entrances to Windy Corner have not been seen to—reported many times.</p> <p>H. Lewis - suggests considering applying for a grant to create a biodiversity area on part of the field at Pencader Cemetery; trees on the road towards Llandysul and also on Alltwalis hill require attention; a list of all flower planters in the Parish is required for the purposes of risk assessment.</p> <p>M. Griffiths - advises members to attend training on Zoom; information provided on training available and the expectation that all Councillors attend some specific courses, e.g. especially Code of Conduct.</p> <p>Biodiversity – it was noted that a plan is currently being prepared and further suggestions for inclusion were requested.</p>

Gorffennwyd y Cyfarfod 9.45 y.h. / Meeting ended 9.45 p

